Parau cyflym hyd at 10

Gwnewch set o 12 cerdyn sy'n dangos y rhifau 0 i 10, gyda dau rif 5. Os hoffech, gallech ddefnyddio cardiau chwarae.

- Shifflwch y cardiau a'u rhoi i'ch plentyn.
- Amserwch faint o amser mae'n cymryd i ddod o hyd i'r holl barau i 10.

0	10	2	8	4	6
1	9	3	7	5	5

Ailadroddwch hyn yn ddiweddarach yn yr wythnos. Tybed a fydd eich plentyn yn gallu curo'r amser blaenorol?

Beth yw'r siâp?

- Meddyliwch am siâp 2-D (triongl, cylch, petryal, sgwâr, pentagon neu hecsagon). Gofynnwch i'ch plentyn ofyn cwestiynau i geisio dyfalu beth ydyw.
- Gallwch ateb *Ie* neu *Na*. Er enghraifft, gallai'ch plentyn ofyn: *Oes 3 ochr ganddo?* neu: *Ydy'r ochrau yn syth?*
- Ceisiwch weld a yw eich plentyn yn gallu dyfalu'r siâp gan ddefnyddio llai na phum cwestiwn.
- Gofynnwch iddyn nhw ddewis siâp a chithau'n gofyn cwestiynau y tro hwn.



Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 2

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Blwyddyn 2 2

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu …

- ☐ Cyfrif hyd at 100 o leiaf, a darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100.
- ☐ O gael unrhyw chwe rhif hyd at 100, eu rhoi mewn trefn.
- ☐ Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul un neu fesul deg o unrhyw rif dau ddigid, e.e. *dau ddeg chwech, tri deg chwech, pedwar deg chwech …*
- ☐ Adnabod odrifau ac eilrifau.
- ☐ Adio a thynnu rhifau dan 20 yn eu pen.
- ☐ Gwybod parau rhif 'degau' sy'n gwneud 100, e.e. 30 + 70.
- ☐ Dyblu a haneru rhifau bach, e.e. dwbl 9 yw 18, a hanner 18 yw 9.
- ☐ Gwybod tabl 2 a 10 ar eu cof.
- ☐ Cyfrifo cyfanswm gwerth llond dwrn o ddarnau arian hyd at £1.
- ☐ Mesur neu bwyso gan ddefnyddio metrau, centimetrau, cilogramau neu litrau.
- ☐ Defnyddio pren mesur i dynnu a mesur llinellau i'r centimetr agosaf.
- ☐ Dweud faint o'r gloch yw hi i'r hanner awr a chwarter awr.
- ☐ Enwi a disgrifio siapiau 2-D a 3-D cyffredin.
- ☐ Datrys problemau rhif syml, ac egluro eu dull gweithio.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 2.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif hyd at 100 yn dal i gael trafferth i ddweud beth sy'n dod ar ôl 47 neu pa rif sy'n dod o flaen 50.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Rhifau ceir

- Mae pob person yn dewis rhif targed, e.e. 15.
- Sawl rhif car allwch chi eu gweld yn sydyn gyda 3 digid sy'n adio i wneud eich rhif targed, e.e. K456 XWL.
- Felly mae 4 + 5 + 6 = 15, bingo!

Tynnu ffa



Ar gyfer y gêm hon bydd angen dis

a rhywfaint o ffa sych neu fotymau.

- Dechreuwch â'r pentwr ffa yn y canol. Cyfrwch nhw.
- Taflwch ddis. Dwedwch faint o ffa fydd ar ôl wrth dynnu'r rhif hwnnw.
- Yna tynnwch y ffa a gwiriwch os ydych yn iawn!
- Ewch ymlaen â'r chwarae.
- Y person sy'n cymryd y ffa olaf sy'n ennill!